**ADRODDIAD PWYLLGOR**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **TRWYDDEDU** |
| **DYDDIAD** | **27ain o Ebrill 2009** |
| **TEITL YR ADODDIAD** | **CYNLLUN YMYRRAETH 2009/10 Y GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH** |
| **ARGYMHELLIAD** | **CYMERADWYO CYNLLUN YMYRRAETH Y GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH AR GYFER 2009/10** |
| **AWDUR** | **PENNAETH GWASANAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd mae adain sy'n delio gyda gorfodi iechyd a diogelwch yn y gwaith. Gwaith yr adran hon yw gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch mewn mannau gwaith eraill y tu allan i'r Cyngor e.e. mewn siopau, meysydd carafanau, gwestai ac ati.

1.2 Mae'r adain yn gwneud yr un gwaith â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) ac mae canllawiau manwl ar gael sy'n nodi pa un ai AGID ynteu'r Cyngor yw'r awdurdod gorfodi perthnasol ar gyfer gwahanol fannau gwaith. Yr un yw pwerau'r Cyngor ac AGID o ran cyflwyno rhybuddion ac erlyn ac ati.

1.3 Dylid nodi bod y gwaith hwn, sef gorfodi deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, yn gwbl ar wahân i waith gofalu am iechyd, diogelwch a lles gweithwyr y Cyngor. Mae'r gwaith hwnnw wedi'i neilltuo i adain yn y Gwasanaeth Adnoddau Dynol gan ei fod yn ymwneud â chyfrifoldebau'r Cyngor fel cyflogwr ac nid fel awdurdod gorfodi.

1.4 Yn unol ag adran 18 (4) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a chanllawiau'r AGID, mae gan bob Awdurdod Lleol ddyletswydd i sicrhau bod trefniadaethau digonol yn eu lle yn ei ardal er mwyn gorfodi'r darpariaethau statudol perthnasol.

1.5 Un o'r trefniadaethau hyn yw bod raid i awdurdod lleol roi cynllun gwasanaeth blynyddol yn ei le a hwnnw'n gynllun sydd wedi'i gymeradwyo gan aelodau etholedig ac sy'n nodi'n glir sut y mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu at flaenoriaethau'r AGID.

1.6 Yn sgil y gofynion statudol hyn, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd gael gwasanaeth iechyd a diogelwch cydnabyddedig a gymeradwyir yn flynyddol gan aelodau etholedig.

1.7 Gan fod gorfodi iechyd a diogelwch yn un o'r materion nad oes modd i'r Bwrdd wneud dim yn ei gylch, penderfynodd y Cyngor, pan oedd yn diwygio'r Cyfansoddiad yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2006, ddirprwyo gwaith cymeradwyo'r cynllun i'r Pwyllgor Trwyddedu.

## 2. Y CYNLLUN

2.1 Ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn mae Cynllun Ymyrraeth y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch 2009/10.

2.2 Yn y cynllun gwelir sut y mae'r adain yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cyngor a'r AGID ac mae'n gosod ei nodau a'i amcanion ei hun. Mae'n gosod blaenoriaethau gwaith yr adain am y flwyddyn, boed iddynt fod yn archwiliadau neu'n ymgyrchoedd. At hyn, mae'n dadansoddi'r adnoddau sydd ar gael a'r gwaith y mae gofyn ei wneud i gefnogi'r cynllun. Yn ei gyfanrwydd, mae'n gosod fframwaith y mae modd i'r adain a'r rheolwr weithio ynddo yn ystod y flwyddyn.

2.3 Mae blaenoriaethau'r adain yn trosglwyddo i gynllun gwella'r Gwasanaeth gyda dangosyddion allweddol ar gyfer gwahanol weithgareddau. Wrth ymgorffori Cynllun Ymyrraeth y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn system rheoli perfformiad y Cyngor fel hyn, mae modd i'r Pennaeth Gwasanaeth Adran Rheoleiddio a'r Arweinydd Portffolio gadw llygad ar y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau, a hynny bob chwarter, a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor craffu fel bo'n briodol.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau'r pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch am 2009/10.